Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng: Trefniadau ar gyfer Rheoli'r Galw – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4619A2024

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Ffeithiau a ffigurau allweddol 5

Negeseuon allweddol 7

Argymhellion 9

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio 13

Defnyddio gwasanaethau 16

Trefniadau craffu a monitro 30

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 36

Atodiad 2 – meini prawf archwilio 38

Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr 42

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau adolygiad 2024 yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd). Y gwaith yw ail gam rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar sawl elfen o'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru. Adroddir y cam cyntaf, a archwiliodd y broses o gynllunio i ryddhau cleifion ac effaith y llif cleifion ar ofal brys a brys, ar wahân.

2 Mae ein dull gweithredu yn cydnabod bod y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yn gymhleth, lle mae angen i lawer o wahanol sefydliadau weithio gyda'i gilydd i ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng a sicrhau bod y system ehangach yn gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (Rhaglen Chwe Nod) Llywodraeth Cymru a lansiwyd yn 2021, yn darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ar adeg ein gwaith, roedd y system gofal brys a gofal mewn argyfwng yng Nghymru yn dal i fod o dan bwysau sylweddol.

3 Mae ein gwaith wedi archwilio trefniadau rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng y Bwrdd Iechyd, er mwyn lleihau pwysau diangen ar y system. Fe'i gwnaed er mwyn helpu i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol ar waith i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol, a darbodus o'i adnoddau.

4 Gwnaethom ymgymryd â'n gwaith yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Crynhoir y dulliau archwilio a'r meini prawf a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith yn **Atodiadau 1 a 2**.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

| Gwasanaethau Gofal Sylfaenol | |
|---|---|
| **710** | Nifer yr apwyntiadau brys ac acíwt gyda meddygon teulu[1] sydd ar gael fesul diwrnod fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Medi 2024 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 731. Mae hyn yn ostyngiad o 21.9% ers mis Ebrill 2022. |
| **905** | Nifer y cysylltiadau â meddygon teulu y tu allan i oriau fesul mis fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Gorffennaf 2024 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 973. |
| **0** | Nifer y cysylltiadau mewn Canolfan Gofal Sylfaenol Brys[2], o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 338, fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Medi 2024. |

| Gwasanaethau Ambiwlans | |
|---|---|
| **194%** | Y cynnydd mewn galwadau ambiwlans Categori A (coch) rhwng mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2025 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 178%. |
| **53%** | Y galwadau ambiwlans Categori A (coch) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud ym mis Chwefror 2025, o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 51%, a tharged cenedlaethol o 65%. Mae hyn yn ostyngiad o 18% ers mis Chwefror 2019. |

[1] Diffinnir apwyntiadau brys ac acíwt fel apwyntiadau ar gyfer cyflyrau brys neu acíwt sydd wedi digwydd dros y tymor byr.

[2] Nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ganolfannau gofal sylfaenol brys.

| Gwasanaethau Ambiwlans | |
|---|---|
| **24%** | Nifer y cleifion a drosglwyddwyd o'r criwiau ambiwlans i'r adran achosion brys o fewn 15 munud i gyrraedd ym mis Chwefror 2025, o'u cymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 15%, a tharged cenedlaethol o 100%. Mae hyn yn ostyngiad o 60% ers mis Chwefror 2019. |

| Gwasanaethau Ysbyty | |
|---|---|
| **9%** | Y cynnydd yn y nifer a oedd yn bresennol yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd rhwng mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2025, o'u cymharu â'r cynnydd cyfartalog yng Nghymru, sef 1%. |
| **1260** | Nifer y bobl a arhosodd yn hwy na 12 awr yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2025. Mae hyn yn gynnydd o 172% ers mis Chwefror 2019. |
| **05:24** | Yr amser cyfartalog a dreuliwyd yn Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 5 awr ac 31 munud. Mae hyn yn gynnydd o 1 awr, 48 munud ers mis Chwefror 2019. |
| **219** | Y nifer a oedd yn bresennol mewn unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ym mis Gorffennaf 2024 o'u cymharu â chyfartaledd Cymru, sef 233. |

| Cyllid | |
|---|---|
| £52.4m | Arian ychwanegol a ddyrannwyd i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cyfnod 2022-2025 er mwyn adennill gofal arfaethedig a gofal brys a gofal mewn argyfwng yn ychwanegol at gyllid craidd y Bwrdd Iechyd. |
| £5.7m | Arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2023-24, a 2024-25 i gefnogi'r broses o gyflawni uchelgeisiau Rhaglen Chwe Nod. |

# Negeseuon allweddol

## Casgliad cyffredinol

5 Ar y cyfan, canfuom fod **newidiadau i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn arwain at rai gwelliannau wrth reoli'r galw, a gefnogir gan gynlluniau rhesymol a goruchwyliaeth effeithiol. Fodd bynnag, mae'r perfformiad yn dal i fod yn wael mewn meysydd gan gynnwys oediadau wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys, ac mae angen cryfhau'r ymgysylltiad rhwng staff a chleifion.**

## Canfyddiadau allweddol

### Trefniadau cynllunio

6 Canfuom fod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau rhesymol ar gyfer nodi sut y bydd yn gweithredu Rhaglen Chwe Nod er mwyn rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn well.

7 Mae'r cynlluniau'n gyson â gofynion Rhaglen Chwe Nod. Mae'r cynlluniau yn amlinellu camau gweithredu allweddol ar gyfer 2024-25, sy'n cynnwys gweithgareddau allweddol megis datblygu canolfannau ffrydio clinigol a datblygu dull mwy cyson o ymdrin ag unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r cynlluniau hefyd yn nodi risgiau allweddol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â heriau gweithlu ac adnoddau, yn ogystal â chamau i liniaru risgiau.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymrwymiad clir i weithredu'r cynlluniau hyn, gan gynnwys drwy fuddsoddi ei gyllid craidd ei hun i gefnogi ac ehangu'r cynlluniau drwy ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer yr hyn a ddyrennir ar gyfer y chwe nod.

Fodd bynnag, nid yw cynlluniau yn nodi'r lefelau staffio sydd eu hangen ac mae diffyg eglurder ynghylch y modd y bydd modelau newydd yn cael eu cyllido yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

## Defnyddio gwasanaethau

9 Canfuom nad oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun cyfathrebu ar gyfer ei ryngweithio â'r cyhoedd, staff a rhanddeiliaid ynghylch gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfathrebu ac yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd drwy ei wefan a'i blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgaredd cyfathrebu hwn ar hyn o bryd, ac mae sylwadau yn ystod ein hadolygiad, yn ogystal â chan Llais, yn dangos bod angen cryfhau negeseuon cyhoeddus ymhellach am bwrpas gwasanaethau a sut i gael gafael arnynt.

10 Canfuom hefyd ymgysylltiad anghyson â'r staff ynghylch yr wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i wasanaethau a'r broses o ddarparu gwasanaethau. Dangosodd ein cyfweliadau fod lefel o ddiwylliant beio rhwng grwpiau o staff mewn cysylltiad ag osgoi derbyn cleifion, sy'n effeithio'n negyddol ar ymgysylltiad y staff a'r gallu i ddod o hyd i atebion ar y cyd i faterion. Mae'r Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn canolfannau ffrydio clinigol er mwyn cefnogi staff i gyfeirio ac atgyfeirio cleifion at wasanaethau amgen priodol, er nad yw'n glir sut mae hyn yn gydnaws â chyfeirlyfr gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Mae cyfraddau is o alwadau 999 a 111 ar draws y Bwrdd Iechyd sy'n cael eu trin o bell, ac mae cyfraddau is o gleifion sy'n cael eu trin yn y gymuned gan barafeddygon. Mae hyn yn awgrymu bod angen mwy o lwybrau i'r staff eu defnyddio, oherwydd bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n llawer gwaeth na'r lleill o ran helpu cleifion i gael gofal deintyddol brys.

11 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i ddarparu asesiadau meddygol a thriniaethau brys heb dderbyn cleifion dros nos. Hefyd, mae gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod yn Aberteifi yn darparu ar gyfer cleifion sy'n cerdded i mewn â mân anafiadau a salwch. Rhwng mis Hydref 2023 a mis Gorffennaf 2024, roedd cyfradd presenoldeb Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod y Bwrdd Iechyd yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, ond i'r rhai yn mynd i unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, mae cyfraddau rhyddhau uchel, sy'n dangos bod yr unedau yn cael eu defnyddio yn effeithiol.

12 Mae data'n dangos bod y galw yn cynyddu mewn cysylltiad â galwadau coch i 999 yn ogystal â thrwy bresenoldeb mewn Adrannau Achosion Brys. Mae'r gyfradd y mae criwiau ambiwlans yn cludo cleifion i'r ysbyty wedi gwella, sy'n awgrymu bod rhai o'r newidiadau diweddar i'r gwasanaeth yn cael effaith gadarnhaol. Hefyd, mae amseroedd aros mewn Adrannau Achosion Brys wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf o'u cymharu â'r targedau o bedair a 12 awr. Fodd bynnag, mae oedi wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod ar lefelau annerbyniol o uchel, sy'n debygol o achosi niwed i gleifion, i'r cleifion sy'n aros i gael eu trosglwyddo i'r ysbyty, yn ogystal â chleifion yn y gymuned sy'n aros am ymateb ambiwlans.

### Trefniadau craffu a monitro

13 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddangosfyrddau i'w alluogi i olrhain ac adrodd y defnydd o wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac mae'n ymgysylltu â byrddau iechyd eraill i nodi a mabwysiadu arferion da. Mae'n ceisio sylwadau cleifion yn rheolaidd, ac mae sgoriau diweddar ar arolwg CIVICA yn dangos gwelliant ar draws sawl agwedd allweddol ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r sylwadau hyn i wella gwasanaethau. Yn ogystal â hynny, nid yw'r broses o goladu sylwadau gan y staff yn gyson.

14 Mae'r broses o oruchwylio a chraffu ar gynlluniau a pherfformiad yn effeithiol. Mae goruchwyliaeth weithredol o'r perfformiad a'r cynnydd o ran cynllunio gan Grŵp Cyflawni Ansawdd, Perfformiad a Chyllid Gwell y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cyfranogi mewn trafodaethau strategol nac goruchwylio cynlluniau, sy'n cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cynlluniau yn effeithiol ar draws y system gofal brys a gofal mewn argyfwng cyfan. Mae lle hefyd i werthuso prosiectau a buddsoddi cyllid y Chwe Nod yn fwy cyson.

## Argymhellion

15 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion yn **Atodiad 3**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Nodi data a ddefnyddir i lywio cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng**<br>A1 Er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau yn adlewyrchu ac yn gydnaws â gwybodaeth gyfredol am, er enghraifft, y galw am wasanaeth, capasiti y gwasanaeth a phwysau demograffig yn y dyfodol, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir y data a ddefnyddir i lywio ei gynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y dyfodol **(Arddangosyn 2)**. |

**Argymhellion**

**Cyllido Rhaglen Chwe Nod**

A2 Er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni mentrau sy'n gysylltiedig â Chwe Nod yn barhaus, mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau cyllido ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Hefyd, dylai cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod nodi unrhyw anghenion cyllido y tu hwnt i'w dyraniad blynyddol cyfredol **(Arddangosyn 2)**.

**Cyfeirio cleifion at wasanaethau deintyddol brys**

A3 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r galw uchel am ofal brys oherwydd problemau deintyddol, dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod practisau deintyddol yn darparu gwybodaeth clir a hygyrch am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ar eu gwefannau a chynnal archwiliad yn y dyfodol i sicrhau cydymffurfiaeth **(Paragraff 28)**

**Cyfeirio cleifion at y gwasanaethau cywir**

A4 Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y gofal brys a'r gofal mewn argyfwng sydd fwyaf priodol i'w hanghenion, dylai'r Bwrdd Iechyd gysylltu â Llais a grwpiau cynrychiolwyr cleifion eraill fel y bo'n briodol, er mwyn helpu i nodi lle mae angen cryfhau gwybodaeth gyfredol i gleifion a threfniadau cyfeirio **(paragraff 32)**.

**Aliniad rhwng y cyfeiriadur gwasanaethau a chanolfannau ffrydio clinigol**

A5 Er mwyn sicrhau aliniad rhwng y wybodaeth a gedwir gan y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am lwybrau a'r dulliau atgyfeirio sydd ar gael, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i nodi'n glir sut mae ei ganolfannau ffrydio clinigol a chyfeiriadur gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol (**Paragraff 37**).

**Argymhellion**

**Archwiliad dwfn i'r perfformiad sy'n gysylltiedig â gwasanaethau deintyddol**

A6 Nododd data a adolygwyd yn rhan o'r gwaith hwn fod y galw yn y rhanbarth sy'n ymwneud â gwasanaethau deintyddol brys yn llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, er bod y perfformiad yn wael o'i gymharu â chontractau. Er mwyn sicrhau ei fod yn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl ac yn lliniaru'r pwysau hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd ag archwiliad dwfn i'w alw am wasanaethau gofal deintyddol brys (**Paragraff 41**).

**Y cynnydd o'i gymharu ag adolygiad o'r diwrnod prysuraf**

A7 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynyddu gymaint â phosibl y ddysg a nodir yn ei adolygiad o'r diwrnod prysuraf ym mis Tachwedd 2023, dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf o'i chymharu â'r argymhellion i'r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (**Paragraff 43**).

**Monitro cydymffurfiaeth â chanllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol**

A8 Er mwyn cael sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol, dylai gynnal archwiliad o'i ddata Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod o'u cymharu â'r meini prawf ac adrodd y canlyniadau wrth bwyllgor neu fforwm priodol (**Paragraff 54**).

**Mynediad at gofnodion meddygon teulu ar gyfer Canolfan Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod**

A9 Er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu dichonoldeb galluogi'r Canolfan Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i gael gafael ar gofnodion meddygon teulu **(Paragraff 55)**.

**Sicrhau ansawdd data er mwyn llywio cynlluniau**

A10 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a dilysu'n rheolaidd y data cyfredol sydd ar gael am ofal brys a gofal mewn argyfwng, fel y gellir gwneud penderfyniadau â mwy o hyder ar sail y data sydd ar gael (**Arddangosyn 9**).

**Argymhellion**

**Defnyddio sylwadau cleifion**

A11 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar sylwadau cleifion, dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y dyfodol ddangos sut maent wedi ystyried sylwadau cleifion **(Arddangosyn 9)**.

**Sylwadau staff am newidiadau i wasanaethau**

A12 Er mwyn nodi gwendidau neu ddysg bosibl mewn cysylltiad â newidiadau diweddar i'w wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno dulliau rheolaidd ar gyfer sylwadau staff. Dylai hyn gynnwys sylwadau gan bartneriaid allweddol gan gynnwys gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Arddangosyn 9**).

**Goruchwylio a Chraffu**

A13 Er mwyn cryfhau ei allu i gydgysylltu cynlluniau strategol a newidiadau i wasanaethau ar gyfer ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel aelod o'i Grŵp Gweithredol Integredig Chwe Nod **(Arddangosyn 10)**.

**Gwerthuso manteision prosiect**

A14 Er mwyn cryfhau ei adroddiadau am y manteision a gyflawnwyd o'i waith Rhaglen Chwe Nod a'r defnydd cysylltiedig o gyllid, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyfathrebu canllawiau i staff ar sut i werthuso effeithiolrwydd prosiectau, mentrau a newidiadau i wasanaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 10)**.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau cynllunio

16 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o gynlluniau:

- yn cael eu llywio gan wybodaeth perthnasol a chyfredol
- yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng
- yn alinio â gofynion Rhaglen Chwe Nod, ac yn nodi'n glir sut y bydd llwybrau clinigol eraill yn gweithio
- yn nodi'r lefelau cyfredol a'r lefelau gofynnol o adnoddau a staffio ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir.

17 Gwnaethom adolygu Cynllun Cyflawni Chwe Nod 2024-25 y Bwrdd Iechyd (Cynllun Chwe Nod) ynghyd ag adrannau perthnasol o'i Gynllun Blynyddol: Bwriad tair blynedd 2024-2027 sy'n canolbwyntio ar ofal brys a gofal mewn argyfwng.

18 Canfuom fod **cynlluniau rhesymol i reoli'r galw, gyda chefnogaeth buddsoddiad gan Raglen Chwe Nod a'r Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau yn nodi'r lefelau staffio sydd eu hangen ac mae diffyg eglurder ynghylch y modd y bydd modelau newydd yn cael eu cyllido yn y tymor canolig i'r tymor hwy**.

19 Crynhoir canfyddiadau ein hadolygiad o'r cynlluniau yn **Arddangosyn 2**.

**Arddangosyn 2: dull o gynllunio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r cynlluniau yn cael eu llywio gan wybodaeth perthnasol a chyfredol? | **Nac ydynt** | Nid yw cynlluniau y Bwrdd Iechyd yn nodi'n glir pa ddata a gwybodaeth sydd wedi eu defnyddio i'w datblygu **(Argymhelliad 1)**.<br>Yn ogystal â hynny, adroddodd staff, er eu bod yn gallu cael gafael ar ddata i lywio cynlluniau, na allai'r data sydd ar gael ar hyn o bryd eu sicrhau'n llwyr. |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r cynlluniau yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng? | **Ydynt** | Mae cynlluniau y Bwrdd Iechyd yn nodi risgiau allweddol a chamau lliniaru. Mae log Materion a Phenderfyniadau Gweithredu i Liniaru Risg yn cefnogi Cynllun Chwe Nod. Rhoddir sgôr difrifoldeb i feysydd risg unigol, neilltuir perchennog risg iddynt a rhoddir cynllun gweithredu lliniarol iddynt. Mae risgiau'n cael eu monitro drwy Grŵp Gweithredol Integredig Chwe Nod. Mae rhai o'r risgiau a restrir ar y log Materion a Phenderfyniadau Gweithredu i Liniaru Risg yn enwedig o heriol oherwydd eu bod yn ymwneud â heriau gweithlu ac adnoddau.<br><br>Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi'r risgiau hyn yn fwy manwl ac mae pwysau ar y capasiti a lefelau uchel o risg sy'n cynyddu ar draws safleoedd acíwt bob dydd. Mae gan y Bwrdd Iechyd sawl rheolaeth ar waith ac mae'n olrhain y cynnydd. Risg allweddol arall wrth reoli gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng a restrir ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yw diffyg lle ffisegol a seilwaith cysylltiedig, sy'n cyfyngu ar y gwasanaethau y gall y Bwrdd Iechyd eu darparu, megis Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
| --- | --- | --- |
| A yw'r cynlluniau yn alinio â gofynion Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, ac yn nodi'n glir sut y bydd llwybrau clinigol eraill yn gweithio? | **Ydynt** | Mae'r cynlluniau y Bwrdd Iechyd yn gyson â gofynion Rhaglen Chwe Nod. Mae'r cynlluniau yn nodi bwriad y Bwrdd Iechyd i ranbartholi canolfannau ffrydio clinigol, datblygu ymhellach y model eiddilwch wrth y drws ffrynt a chael dull mwy cyson o ymdrin â Chanolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, gan gynnwys treialu Canolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod llawfeddygol[3].<br><br>Mae cynlluniau hefyd yn manylu ar ddull y Bwrdd Iechyd o weithredu Gwasanaeth Gofal Brys 24/7 a Datblygu Clwstwr Cyflym. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ganolfannau gofal sylfaenol brys penodol oherwydd ei fod wedi penderfynu rheoli'r galw drwy wasanaethau presennol.<br><br>Hefyd, mae cynlluniau y Bwrdd Iechyd yn nodi pwyslais clir ar ailgynllunio llwybrau, datblygu cyfeiriadur gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a gwella llinellau cyngor a chanllawiau arbenigol. |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r cynlluniau yn nodi'r lefelau cyfredol a'r lefelau gofynnol o adnoddau a staffio ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau a fwriedir? | **Yn rhannol** | Pennodd y Bwrdd Iechyd mai £5.6 miliwn oedd cost ei Gynllun Chwe Nod 2024-25. Derbyniodd ddyraniad o £2.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru ac ymrwymodd i ddarparu'r £2.8 miliwn sy'n weddill o'i ddyraniad craidd. Ym mis 10, 2024-25, roedd gwariant y dyraniad Chwe Nod ar y trywydd iawn.<br><br>Nid yw Cynllun Chwe Nod yn darparu manylion sy'n ymwneud â'r defnyddio cyllid arall ar fentrau/rhaglenni sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, megis cronfa Further Faster neu Gronfa Integredig Ranbarthol. Hefyd, nid oes unrhyw fanylion yn y cynllun am sut y byddai'n rheoli llithriad neu orwariant neu unrhyw anghenion cyllido posibl y tu hwnt i fis Mawrth 2025 ar gyfer y mentrau a ddisgrifir.<br><br>Y tu hwnt i nodi costau cyflog lefel uchel, nid yw Cynllun Chwe Nod yn disgrifio'n glir y lefelau angenrheidiol o staffio sydd eu hangen i gyflawni'r cyflawniadau a'r uchelgeisiau datganedig (**Argymhelliad 2**). |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Defnyddio gwasanaethau

20 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau cadarn ar waith i annog a galluogi pobl i gael gafael ar y gofal cywir, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn, ac a yw'r rhain yn gweithio. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- cyfeirio yn effeithiol gleifion at y gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu eu hanghenion orau
- staff sydd â gwybodaeth dda am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i gleifion
- newidiadau i'r broses o ddarparu gwasanaethau sy'n arwain at welliannau wrth gael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.

21 Canfuom fod **newidiadau i wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn arwain at reoli'r galw'n well mewn rhai meysydd, ond bod angen ymgysylltu â'r staff â'r cyhoedd yn well er mwyn llywio'r gallu i gael gafael ar**

**wasanaethau a bod oediadau wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod yn annerbyniol o uchel.**

## Cyfeirio at wasanaethau i'r cyhoedd

22 Canfuom fod **rhai trefniadau ar waith ar gyfer cyfeirio gwasanaethau i'r cyhoedd, ond nad yw'r trefniadau yn strategol a'u bod ar y we yn bennaf, ac mae sylwadau yn awgrymu bod angen gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau**.

### Cynlluniau cyfathrebu

23 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun cyfathrebu annibynnol sy'n nodi sut mae'n cyfathrebu negeseuon gofal brys a gofal mewn argyfwng i'r cyhoedd, ei staff, ac asiantaethau eraill. Ym mis Ebrill 2024, cymerodd y Bwrdd Iechyd ran yn adolygiad Llywodraeth Cymru o'i weithgarwch cyfathrebu. Dangosodd yr adolygiad hwn fod y rhan fwyaf o'i weithgarwch cyfathrebu cyhoeddus drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cyfeirio cleifion at ddewisiadau addas eraill i'r Adran Achosion Brys ac yn eu hysbysu am amseroedd aros hir posibl.

24 Mae gwahaniaethau mewn gwasanaethau gofal brys a gofal mewn ar argyfwng ar waith ledled tair sir y Bwrdd Iechyd. Gall y gwahaniaethau hyn ei gwneud yn anoddach i gleifion a staff ddeall sut i gael gafael ar wasanaethau. Mae log Materion a Phenderfyniadau Gweithredu i Liniaru Risg sy'n cefnogi Cynllun Chwe Nod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i ddatblygu cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu ac mae'r tîm cyfathrebu yn cael ei gynrychioli yn strwythur grŵp Rhaglen Chwe Nod. Fodd bynnag, mae'r log yn nodi y bydd cynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu datblygu 'yn ôl yr angen' yn hytrach nag fel dull strategol hirdymor ac integredig.

### Gwybodaeth gyhoeddus

25 Efallai mai'r pwynt galw cyntaf ar gyfer y mwyafrif o'r cleifion sydd ag angen brys yw eu meddyg teulu, ac mae ein hadolygiad o'r data sydd ar gael yn awgrymu, rhwng mis Hydref 2023 a mis Medi 2024, fod practisau y Bwrdd Iechyd wedi darparu, ar gyfartaledd, lefel uwch o apwyntiadau brys ac acíwt fesul diwrnod (837 o apwyntiadau y diwrnod) o'u cymharu â chyfartaledd Cymru (809 apwyntiad y diwrnod) fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu. Fodd bynnag, mae'r lefel wedi bod yn gostwng dros amser, o 856 o apwyntiadau y diwrnod ym mis Hydref 2023 i 710 ym mis Medi 2024, sef y trydydd isaf yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, dim ond yn ystod y dydd y mae'r apwyntiadau hyn ar gael, ac ar adegau pan fo'r galw'n uchel a thu allan i oriau, mae angen cyfeirio cleifion at wasanaethau eraill sy'n gallu diwallu eu hanghenion gofal brys.

26 Dangosodd ein hadolygiad o wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y Bwrdd Iechyd ei fod yn cyfeirio cleifion at wybodaeth am amrywiaeth o wasanaethau addas, gan gynnwys sut i ddefnyddio 111, gwirwyr symptomau, fferyllfa gymunedol, y gwasanaeth tu allan i oriau a gwasanaethau iechyd meddwl. Ar adeg ein gwaith maes, roedd baner yn cael ei harddangos ar draws gwefan y Bwrdd Iechyd yn nodi bod ei holl Adrannau Achosion Brys o dan bwysau sylweddol. Roedd y faner yn darparu dolen i dudalen we yn egluro pryd i ddefnyddio adran achosion brys neu wasanaethau eraill. Fodd bynnag, mae'r faner wedi bod yn ei lle ers sawl mis ac nid yw'n glir a yw'r defnydd o'r faner hon yn cael ei adolygu'n rheolaidd i adlewyrchu'r amgylchiadau cyfredol.

27 Gwnaethom ystyried hefyd pa wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd drwy feddygon teulu a phractisau deintyddol, er mwyn asesu a oedd cyfeiriadau clir ar gyfer cleifion pe byddai ganddynt anghenion gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi canlyniadau y gwaith hwn, a adolygodd wefannau a negeseuon ffôn y tu allan i oriau 12 practis meddyg teulu ac 11 practis deintyddol[4].

**Arddangosyn 3: canlyniadau yr adolygiad o wybodaeth meddygon teulu a phractisau deintyddol (Hydref 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| y ganran o wefannau y practisiau meddyg teulu yr oedd ganddynt gyfeiriadau clir | 91.7 | 56.8 |
| y ganran o'r practisiau meddyg teulu yr oedd ganddynt negeseuon ffôn â chyfeiriadau clir | 100 | 89.5 |
| y ganran o wefannau y practisiau deintyddol yr oedd ganddynt gyfeiriadau clir | 27.3 | 36.7 |
| y ganran o'r practisiau deintyddol yr oedd ganddynt negeseuon ffôn â chyfeiriadau clir | 81.8 | 86.7 |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

28 Yn gadarnhaol, roedd yr holl bractisau meddyg teulu a samplwyd yn darparu cyfeiriadau clir at wasanaethau gofal brys neu ofal mewn argyfwng y tu allan i oriau ar eu llinellau ffôn, gan ddefnyddio neges safonol. Roedd pob gwefan meddyg

[4] Roedd y sampl yn cynnwys cymysgedd o bractisau deintyddol y GIG a phreifat.

teulu a samplwyd ond un yn darparu cyfeiriadau clir, sy'n llawer gwell na sefyllfa Cymru. Roedd cyfeiriadau clir ar wefannau deintyddol yn llai cyffredin, ac mae'r canlyniadau yn is na sefyllfa Cymru ac ymhlith yr isaf yng Nghymru. Roedd cyfeiriadau drwy linellau ffôn deintyddol yn well, ond yn dal i fod yn is na sefyllfa Cymru. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu rhywfaint o negeseuon effeithiol drwy bractisau meddyg teulu, ond mae angen gwneud mwy o waith i annog cyfeiriadau cliriach drwy bractisau deintyddol, yn enwedig ar wefannau **(Argymhelliad 3)**.

29 Ledled Cymru, mae rhwng 450,000 a 500,000 o bobl yn mynd at wefan 111 bob mis. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfradd is o alwadau 111 fesul pen yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu, ac mae'r galwadau 111 a wnaed gan drigolion y Bwrdd Iechyd yn cyfrif am 10.7% o'r holl alwadau ym mis Chwefror 2024. Nodir y pum prif reswm dros alwadau yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: y pum prif reswm dros ffonio 111 (Chwefror 2024)[5]**

| Y Bwrdd Iechyd hwn | y ganran o'r holl alwadau | Sefyllfa Cymru Gyfan | y ganran o'r holl alwadau |
|---|---:|---:|---:|
| Problemau deintyddol | 16.3 | Problemau deintyddol | 4.1 |
| Poen yn yr abdomen | 2.9 | Poen yn yr abdomen | 2.4 |
| Poen yn y frest | 1.8 | Poen yn y frest | 1.6 |
| Peswch | 1.6 | Peswch | 1.4 |
| Brech | 1.2 | Brech | 1.0 |

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwlans

30 O bell ffordd, y prif reswm dros ffonio gwasanaeth 111 yn ardal y Bwrdd Iechyd yw problemau deintyddol, ac mae'r ganran yn llawer uwch nag unrhyw ardal arall y Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn cynnwys gwybodaeth i gleifion am ofal deintyddol brys. O dan yr 'adran Gofal Iechyd', mae cleifion yn cael eu cyfeirio i gysylltu â'u darparwr deintyddol eu hunain yn y lle cyntaf, os oes ganddynt un. Os nad oes ganddynt ddeintydd rheolaidd, maent yn cael eu cyfarwyddo i ffonio 111 am gyngor a chymorth i ddod o hyd i apwyntiad deintyddol

[5] Oherwydd materion parhaus gyda'r system 111 newydd a weithredwyd ym mis Ebrill 2024, nid oes unrhyw ddata ar wasanaeth 111 wedi eu hadrodd ers mis Chwefror 2024.

brys. Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer is na'r cyfartaledd o gontractau deintyddol y GIG[6] fesul 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (15.2 a 15.6 yn y drefn honno). Mae sefyllfa y Bwrdd Iechyd wedi gostwng o 16.5 yn 2022-23.

### Ymwybyddiaeth cleifion

31 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â rhywfaint o waith i ddeall ymddygiad cleifion sy'n ymwneud yn benodol â chleifion sy'n mynd i Adran Achosion Brys yn aml. Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, nid oes gan y Bwrdd Iechyd dulliau ar hyn o bryd i werthuso effeithiolrwydd ei gyfathrebu cyhoeddus i ddeall a yw ei weithgarwch yn cyrraedd y gynulleidfa gywir neu a yw ei negeseuon yn newid ymddygiad y cyhoedd o ran y ffordd y maent yn cael gafael ar ofal brys a gofal mewn argyfwng. Yn ystod ein hadolygiad, awgrymodd staff o'r Bwrdd Iechyd y gellid gwneud mwy o waith i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gyda safbwyntiau bod y system yn gymhleth a gall fod yn ddryslyd i gleifion ei llywio.

32 Yn ogystal â hynny, nododd sylwadau gan Llais[7] fod cleifion yn canfod bod diffyg cyfathrebu ynghylch gwasanaethau, ac na ofynnir iddynt yn rheolaidd am eu sylwadau am y gwasanaethau y maent wedi eu derbyn. Nododd Llais fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud enghreifftiau unigol o waith da gyda grwpiau nas clywir yn aml, megis ymgysylltu â ffoaduriaid Wcráin ar sut i gael gafael ar wahanol rannau o'r system. Fodd bynnag, cysylltir â Llais yn aml ynghylch materion a brofir gan gleifion ledled ardal y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys diffyg ystyried cyfrinachedd cleifion mewn mannau agored megis derbynfa yr Adran Achosion Brys, a meysydd megis arosiadau hir ar ambiwlansys, gwybodaeth aneglur am arosiadau a diffyg eglurder o'r camau nesaf yng ngofal y claf (**Argymhelliad 4**).

## Ymwybyddiaeth staff a'r gallu i atgyfeirio

33 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd yn buddsoddi mewn canolfannau ffrydio clinigol er mwyn cefnogi staff i gyfeirio at amrywiaeth ehangach o wasanaethau amgen, ond bod bylchau yn y gallu i gael gwasanaethau deintyddol a bod ymgysylltiad anghyson â'r staff at ddibenion newidiadau mewn gwasanaeth.**

### Hybu ymwybyddiaeth staff o wasanaethau

34 Yn absenoldeb cynllun cyfathrebu, nid oedd yn glir sut y mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â'i staff ynghylch cynlluniau i reoli'r galw am ofal brys a gofal mewn

[6] StatsCymru, data ar gontractau a phractisau deintyddol, 2023-24

[7] Corff statudol annibynnol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yw Llais.

argyfwng. Dangosodd cyfweliadau gydag amrywiaeth o staff yn rhan o'r adolygiad hwn fod y dulliau a ddefnyddid yn anghyson.

35 Dangosodd rhai o'n cyfweliadau hefyd fod lefel o ddiwylliant beio sy'n gysylltiedig â chleifion sy'n mynd i Adrannau Achosion Brys, a bod gwasanaethau yn cael eu beio am beidio â ffrydio'r cleifion hynny yn gynharach yn nhaith y cleifion drwy wasanaethau eraill. Ymddengys bod tensiynau, yn enwedig rhwng staff mewn gofal sylfaenol ac eilaidd ar y mater hwn. Gall y tensiynau hyn wedyn effeithio'n negyddol ar ymgysylltiad a'r broses o weithio ar y cyd i fynd i'r afael â materion cyffredin wrth ddarparu gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n brofiad cadarnhaol i gleifion.

36 Tua diwedd 2023, sefydlodd y Bwrdd Iechyd ganolfannau ffrydio clinigol ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro. Gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio'r canolfannau ffrydio clinigol i gael gafael ar wasanaethau cymunedol gwell a all osgoi derbyn cleifion i'r ysbyty. Mae oriau agor y rhain yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd eu bod yn ddibynnol ar wasanaethau ymlaen sydd ar gael yn y gymuned. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adeiladu ymhellach ar y modelau hyn, ac mae un o'i ffrydiau gwaith Cynllun Chwe Nod at ddibenion ffrydio. Nod y ffrwd waith hon yw datblygu canolfannau ffrydio clinigol rhanbarthol i ddarparu Gwasanaeth Gofal Brys 24/7. Bydd y canolfannau ffrydio clinigol rhanbarthol yn integreiddio ag adnoddau meddygon teulu y tu allan i oriau ac uwch-ymarferwyr parafeddygol a byddant yn cael eu cefnogi gan ganolfannau adnoddau cyflawni lleol sy'n darparu gwasanaethau cymunedol gwell. Oherwydd galw is yn yr ardal, nid oes gan Geredigion ganolfan ffrydio clinigol.

37 Dylai staff y Bwrdd Iechyd fod yn gallu cael gafael hefyd ar y cyfeirlyfr gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned gyda gwybodaeth cynhwysfawr a chyfredol er mwyn cyfeirio cleifion i'r lle cywir ar gyfer eu hanghenion. Mae gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyfeiriadur gwasanaethau ar gyfer pob ardal bwrdd iechyd sy'n cynnwys manylion am lwybrau atgyfeirio. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyfeiriadur hwn yn cael ei ddiweddaru â gwybodaeth gywir. Nid oedd yn glir sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn rheoli'r cyfeiriadur gwasanaethau ochr yn ochr â datblygiad pellach ei ganolfannau ffrydio clinigol, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chysoni a'i bod yn gyfredol (**Argymhelliad 5**).

## Cyfeirio at wasanaethau

38 Mae cyfradd y Bwrdd Iechyd o gleifion sy'n ffonio 999 yr ymdrinnir â nhw drwy gyngor 'ymgynghori a chau' dros y ffôn neu drwy eu cyfeirio yn is yn gyson, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru (13.8% o'i chymharu â 15.1% ym mis Ebrill 2024). O'r galwadau hynny, mae'r gyfran sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill yn unol â chyfartaledd Cymru (73.9% o'i chymharu â 73.0%).

39 Mae gwasanaeth 111 hefyd yn cyfeirio cyfran is o gleifion at wasanaethau eraill. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi'r graddau y mae gwasanaeth 111 wedi gallu cyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys.

**Arddangosyn 5: cyfeirio at wasanaethau eraill (Chwefror 2024)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| y ganran o'r galwadau 111 a gyfeiriwyd at feddyg teulu y tu allan i oriau | 39.8 | 41.0 |
| y ganran o'r galwadau 111 a gyfeiriwyd at broffesiwn iechyd arall | 2.8 | 2.4 |
| y ganran o'r galwadau 111 a gyfeiriwyd at wasanaethau deintyddol | 16.1 | 9.9 |

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru, Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwlans

40 Yn ystod 2023-24, mae'r gyfradd y cyfeiriodd staff 111 gleifion at feddygon teulu y tu allan i oriau ac at broffesiynau iechyd eraill wedi bod yn gyson yn fras â lefel Cymru. Fodd bynnag, mae staff 111 wedi cyfeirio cyfrannau o alwadau at ofal deintyddol brys sy'n uwch yn gyson na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae hyn yn unol â'r data a gynhwysir yn **Arddangosyn 4** ac mae'n dangos yr angen i sicrhau mynediad digonol at lwybrau deintyddol ar draws y Bwrdd Iechyd.

41 Fel y sonnir ym **mharagraff 30**, mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o gontractau deintyddol fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu sy'n is na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae metrigau ar adroddiad perfformiad y Bwrdd Iechyd yn dangos bod canran y gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol a ddarperir o'i chymharu â'r gwerth a gontractiwyd yn is yn gyson na'r targed o 100%. Ar yr adeg pryd y defnyddiwyd y data ar gyfer **Arddangosyn 4**, 56.8% oedd hyn, ond ers hynny, mae wedi dirywio ymhellach ac roedd yn 42.2% ym mis Chwefror 2025. Mae hyn yn debygol o gyfrannu at bwysau ar gleifion y mae angen gwasanaethau deintyddol brys arnynt, er bod contractau ar waith i ddarparu triniaeth arferol (**Argymhelliad 6**).

42 Yn ystod 2023-24, cyfeiriwyd 232 o alwadau (5.1%) gwasanaeth 999 at 111, gan nodi eu bod yn llai taer. Fodd bynnag, o'r galwadau hynny, dychwelwyd ychydig dros un rhan o dair ohonynt, 33.4% o'r 111, yn ôl at linell ffôn 999 er mwyn ystyried anfon ambiwlans. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod, sef 27.6%. Mae'r gyfradd uwch hon yn awgrymu bod lle i gynyddu'r llwybrau priodol sydd ar gael ar gyfer galwadau sy'n daer ond nad yw bywyd yn y fantol ar draws y Bwrdd Iechyd.

43 Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd yr adolygiad o'r diwrnod prysuraf[8] ym mis Tachwedd 2023, sef ymarfer 2019 drachefn. Canfu'r adolygiad fod gwasanaethau wedi newid yn sylweddol ers ymarfer 2019, a oedd yn gwneud cymharu a mesur y cynnydd yn fwy heriol. Fodd bynnag, canfu'r Bwrdd Iechyd y gallai hanner y cleifion a gafodd eu trin yn ystod y dydd fod wedi elwa ar lwybr gofal arall yn hytrach nag ymgyflwyno neu gael eu cyfarwyddo gan weithiwr proffesiynol i'r adran achosion brys. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad â'r nod o ddwyn gwelliannau cyflym a rhwydd eu gweld, ond nid yw'n glir a yw'r rhain wedi eu gweithredu a'u gwerthuso (**Argymhelliad 7**).

44 Mae'r graddau y mae criwiau ambiwlans yn gallu 'gweld a thrin' cleifion yn y fan a'r lle yn ardal y Bwrdd Iechyd yn is na chyfartaledd Cymru (9.1% o'i gymharu ag 11.8% ym mis Chwefror 2025). Mae'r gyfradd 'gweld a thrin' wedi bod yn is yn gyson na chyfartaledd Cymru dros y 12 mis diwethaf. Hefyd, roedd canran y cleifion a gafodd eu cyfeirio at wasanaethau gofal eraill yn uwch na'r sefyllfa yng Nghymru ym mis Chwefror 2025 (14.5.% o'i chymharu ag 11.9%).

45 Yn ystod ein cyfweliadau, clywsom am lwyddiant cyflwyno Uwch-ymarferwyr Parafeddygol wrth ddargyfeirio cleifion oddi wrth yr Adran Achosion Brys. Mae Uwch-ymarferwyr Parafeddygol yn darparu gwasanaethau brysbennu i gleifion drwy adolygu'r galwadau 999 sy'n aros am ambiwlans, darparu triniaeth yn y gymuned, a chyfeirio cleifion at wasanaethau priodol.

46 Yn 2023-24 a 2024-25, roedd pwyslais y Bwrdd Iechyd ar reoli anghenion cleifion dros 75 oed. Adroddir bod y garfan hon o gleifion yn cyfrif am y rhan fwyaf o alw y Bwrdd Iechyd am ofal brys a gofal mewn argyfwng. Er mwyn helpu i reoli'r galw hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu model gwasanaeth eiddilwch acíwt amlddisgyblaethol yn Ysbyty Llwynhelyg er mwyn cefnogi pobl sydd â risg uchel o gwympo, anabledd, a derbyniadau i'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnig asesiadau o fewn 24 i 72 awr i dderbyn y claf yn yr ysbyty. Yn Sir Benfro, mae yna gynllun ymateb i gwympiadau hefyd a gynhelir gan St John Ambulance Cymru a ddechreuodd fel cynllun peilot. Maent yn asesu cleifion yn y fan a'r lle ac yn pennu'r llwybr triniaeth mwyaf priodol. Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod y tîm o fewn deg diwrnod cyntaf y peilot, wedi gofalu am 17 o gleifion ac wedi arbed naw ambiwlans rhag gorfod ymateb.

## Gwasanaethau i helpu i reoli'r galw

47 Canfuom fod **darpariaeth cymharol dda o wasanaethau fferylliaeth cymunedol, ond er bod unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn rheoli'r galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng yn effeithiol, mae angen gwell**

[8] Archwiliad dwfn o gyfnod o 24 awr ar 21 Tachwedd 2023 yn Adran Achosion Brys Ysbyty Cyffredinol Glangwili, ac Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg, yr Adran Achosion Brys yn unig.

**mynediad at ddata cleifion a chydymffurfiaeth â meini prawf atgyfeirio cenedlaethol er mwyn cynyddu eu gwerth gymaint â phosibl.**

## Gwasanaethau fferylliaeth cymunedol

48 Ar gyfer 2023-24, y Bwrdd Iechyd oedd â'r niferoedd uchaf o fferyllfeydd cymunedol fesul pen yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru, sef 23.9 (o'u cymharu â 20.9 ar lefel Cymru). Roedd pob un o fferyllfeydd cymunedol y Bwrdd Iechyd wedi cofrestru i ddarparu'r cynllun anhwylderau cyffredin yn 2023-24. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i fferyllwyr asesu a thrin rhestr gyffredin o fân anhwylderau[9]. Fodd bynnag, pe byddai angen gwrthfiotigau, yna byddai angen cyfeirio cleifion at eu meddyg teulu. Roedd nifer yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu ar gyfer 2023-24 yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (10,834 o'u cymharu â 10,472). Yr anhwylderau mwyaf cyffredin a adroddwyd oedd llid yr amrannau, dolur gwddf, dermatitis, a chlefyd y gwair.

49 Er mwyn ategu'r cynllun, mae rhai fferyllfeydd cymunedol ledled Cymru hefyd wedi cofrestru i ddarparu gwasanaethau gwell ychwanegol, sy'n cynyddu gallu fferyllwyr cymunedol i ymateb ymhellach i fân anhwylderau. Mae hyn yn cynnwys darparu'r gwasanaeth trin a phrofi am ddolur gwddf, a'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol. Mae'r ddau wasanaeth yn galluogi'r fferyllydd cymunedol i bresgripsiynu gwrthfiotigau. Yn ogystal â hynny, gall fferyllwyr cymunedol ddarparu'r gwasanaeth oriau ychwanegol, sy'n caniatáu iddynt estyn eu horiau agor a darparu gwasanaeth ar ŵyl banc.

50 Nodir y niferoedd a fanteisiodd ar y rhain yn **Arddangosyn 6.**

**Arddangosyn 6: y niferoedd a fanteisiodd ar wasanaethau gwell mewn fferyllfeydd cymunedol (2023-24)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| canran y fferyllfeydd cymunedol a ddarparai'r gwasanaeth trin a phrofi am ddolur gwddf | 78 | 79 |
| canran y fferyllfeydd cymunedol a ddarparai'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol | 28 | 28 |

[9] Cynllun anhwylderau cyffredin, 2021.

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| canran y fferyllfeydd cymunedol a ddarparai wasanaethau oriau ychwanegol | 22 | 16 |

Ffynhonnell: StatsCymru

51 Mae canran y fferyllfeydd cymunedol sy'n darparu'r gwasanaeth trin a phrofi am ddolur gwddf a'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol yn unol â'r sefyllfa ledled Cymru. Er bod nifer y fferyllfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol yn isel, mae'r niferoedd wedi cynyddu yn 2023-24 o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol, pryd nad oedd mwy na 18% o'r fferyllfeydd cymunedol yn cynnig y gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, gostyngodd canran y fferyllfeydd cymunedol a ddarparai oriau ychwanegol o 30% yn 2022-23 i 22% yn 2024-24. Er bod hyn yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, mae darpariaeth y gwasanaeth yn isel hefyd. Mae'r nifer isel o wasanaethau oriau ychwanegol sydd ar gael yn debygol o gynyddu'r pwysau ar wasanaethau y tu allan i oriau eraill.

## Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys yr un Dydd

52 Yn unol ag uchelgeisiau Rhaglen Chwe Nod, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn Ysbyty Glangwili, Ysbyty'r Tywysog Philip ac Ysbyty Llwynhelyg. Egwyddor Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yw darparu asesiadau a thriniaeth ar yr un diwrnod i gleifion y mae angen sylw meddygol brys arnynt, heb fod angen i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty dros nos. Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhedeg gwasanaeth Gofal Brys yr Un Diwrnod yn Aberteifi hefyd. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd yn derbyn cleifion sy'n cerdded i mewn â mân anafiadau a salwch. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Ganolfannau Gofal Sylfaenol Brys oherwydd ei fod wedi penderfynu rheoli'r galw drwy wasanaethau presennol yn lle hynny.

53 Rhwng mis Hydref 2023 a mis Gorffennaf 2024, roedd gan y Bwrdd Iechyd gyfradd presenoldeb is yn ei ganolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu nag ar lefel Cymru (209.5 o'i chymharu â 243.6). Arhosodd y lefel hon yn gyson rhwng mis Hydref 2023 a mis Gorffennaf 2024. Fodd bynnag, mae data gan y Bwrdd Iechyd yn dangos, rhwng mis Medi 2023 a mis Medi 2024, fod cyfradd presenoldeb cyfartalog Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod fel cyfanswm y derbyniadau meddygol yn 28.2%, o'i gymharu â tharged o 30%. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau i estyn dull Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ar draws prif arbenigeddau llawfeddygol yn Ysbyty Glangwili.

54 Gall meddygon teulu a staff o'r Adran Achosion Brys gyfeirio cleifion yn uniongyrchol at unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Dywedodd y Bwrdd Iechyd

wrthym hefyd y gall staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (gan gynnwys clinigwyr a pharafeddygon o bell) gyfeirio cleifion yn uniongyrchol at unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Er bod data gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dangos bod gan y rhanbarth y cyfraddau uchaf o atgyfeiriadau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod gan ei staff ledled Cymru, mae hyn yn parhau i fod yn isel iawn a dim ond 0.6% o'r cleifion sy'n cael eu cyfeirio drwy Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru bob mis. Dywedodd y staff y buom yn siarad â nhw fod Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn anghyson o ran yr atgyfeiriadau y mae'n eu derbyn, a bod angen ymrwymo ar y cyd a chadw at y meini prawf atgyfeirio cenedlaethol a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022[10] (**Argymhelliad 8**). Clywsom hefyd fod staff Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn amharod i dderbyn atgyfeiriadau yn ddiweddarach yn y dydd oherwydd bod hynny'n cyfyngu ar eu gallu i ryddhau cleifion cyn i'r gwasanaeth gau. Mae'n bosibl hefyd fod hyn yn effeithio ar allu y gwasanaeth i dderbyn cleifion priodol ac i liniaru pwysau gweithredol mewn mannau eraill. Dywedodd y rhai y buom yn siarad â nhw hefyd fod heriau gydag adnoddau a lle ffisegol yn cyfyngu'r unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod rhag ehangu eu gwasanaeth i weithredu saith diwrnod yr wythnos.

55 Gwasanaeth cymunedol dan arweiniad Uwch-ymarferydd Nyrsio sy'n gallu gweld hyd at 80-90 o gleifion fesul diwrnod yw Gofal Brys yr Un Diwrnod yn Aberteifi. Gall cleifion gerdded i mewn neu gael eu hatgyfeirio. Er ei fod yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener ar hyn o bryd, defnyddiodd y gwasanaeth gyllid 50 diwrnod gan Lywodraeth Cymru [11]i agor yn ystod y penwythnos rhwng 11 Ionawr 2025 a 31 Mawrth 2025. Mae gwefan y Bwrdd Iechyd yn nodi bod y gwasanaeth penwythnos wedi gweld 845 o gleifion yn ystod y cyfnod hwnnw, y byddai 75% ohonynt wedi mynd i Adran Achosion Brys fel arall. Mae'r Bwrdd Iechyd yn asesu gwasanaeth penwythnos Gofal Brys yr Un Diwrnod a'i effaith ar y broses o reoli'r galw a phrofiadau cleifion ar hyn o bryd. Yn rhan o'r asesiad hwnnw, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cyfleoedd i alluogi'r gwasanaeth i gael gafael ar gofnodion cleifion a ddelir gan feddygon teulu. Dywedodd y staff nad yw hyn yn wir ar hyn o bryd a bod hynny'n cyfyngu ar effeithlonrwydd y gwasanaeth **(Argymhelliad 9)**.

56 Mae arferion da yn dangos y dylid bod cyfraddau uchel o gleifion a ryddheir o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn briodol. Yn y Bwrdd Iechyd, mae canran y cleifion sy'n cael eu rhyddhau o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod wedi aros yn gymharol sefydlog, a 90.3% oedd y gyfradd gyfartalog rhwng mis Hydref 2023 a mis Gorffennaf 2024. Dyma'r gyfradd uchaf namyn un yng Nghymru. Oherwydd bod llai

[10] Atgyfeirio uniongyrchol gan barafeddygon at ofal mewn argyfwng ar yr un diwrnod: Polisi Cymru Gyfan, Ebrill 2022

[11] Menter â'r nod o wella'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty a gofal cymunedol, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf, yw her 50 diwrnod Llywodraeth Cymru.

na 10% o gleifion Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn cael eu derbyn i’r ysbyty, mae hyn yn dangos defnydd effeithiol o unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod.

## Effaith newidiadau i’r gwasanaeth ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng

57 Canfuom **er bod data yn awgrymu bod newidiadau i’r gwasanaeth yn lleihau lefelau cludo i’r ysbyty ac yn gwella amseroedd aros mewn Adrannau Achosion Brys, fod oediadau wrth drosglwyddo cleifion yn parhau i fod ar lefelau annerbyniol ac yn creu risg sylweddol o niwed i gleifion**.

### Perfformiad ambiwlans

58 Ers y pandemig, mae galwadau 999 i’r gwasanaeth ambiwlans ar draws y Bwrdd Iechyd wedi parhau i godi ac maent bellach wedi pasio’r lefel a brofai’r gwasanaeth cyn y pandemig, gyda chyfartaledd o 654 o alwadau coch y mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, o’i gymharu â chyfartaledd o 238 o alwadau rhwng mis Mawrth 2018 a mis Chwefror 2019. Er ei fod yn parhau i gyfrif am y mwyafrif o’r galwadau 999, mae nifer y galwadau oren wedi gostwng ychydig ers y pandemig, gyda 3,011 o alwadau y mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 ar gyfartaledd.

59 Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol yn y galw am ambiwlansys, mae’r gyfradd y mae criwiau ambiwlans yn cludo cleifion yn y Bwrdd Iechyd i’r ysbyty wedi gostwng ers y lefelau a fodolai cyn y pandemig o 71.3% (Mawrth 2018 – Chwefror 2019), i 64.7% (Mawrth 2024 – Chwefror 2025). Fodd bynnag, mae’r gyfradd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 63.4%. Mae’r duedd sy’n gwella yn dangos bod rhywfaint o’r gwaith i osgoi cludo yn dwyn ffrwyth, ond mae mwy i’w wneud o’i gymharu â sefyllfa Cymru gyfan. Noda **Arddangosyn 7** y gyrchfan ar gyfer pob achos o gludo.

**Arddangosyn 7: cyrchfan cludo fel cyfran o gyfanswm y cludiant (Mawrth 2024 – Chwefror 2025)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| canran y cleifion a gludwyd i adrannau achosion brys mawr | 86.5 |  | 88.7 |
| canran y cleifion a gludwyd i unedau mân anafiadau | 0.4 |  | 6.3 |

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| canran y cleifion a gludwyd i uned derbyniadau meddygol acíwt mawr | 12.2 |  | 3.1 |
| canran y cleifion a gludwyd i uned arall ee, uned iechyd meddwl neu uned famolaeth | 0.9 |  | 1.8 |

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwlans

60 Mae criwiau ambiwlans yn cludo cyfran o gleifion i Adrannau Achosion Brys y Bwrdd Iechyd sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, ond mae’r cyfraddau yn parhau i fod yn uchel. Y gyfradd o gleifion a gludir i unedau derbyn meddygol acíwt mawr, gan gynnwys unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, yw’r uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, er y gall parafeddygon gludo cleifion i’r uned mân anafiadau, yn ymarferol ychydig iawn sy’n gwneud hynny, ac mae’r cyfraddau cludo i unedau mân anafiadau ar draws y Bwrdd Iechyd yn sylweddol is na’r cyfartaledd yng Nghymru.

61 Mae data’n dangos bod oediadau wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys ar draws y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod ar lefelau annerbyniol o uchel. Dim ond 22.9% oedd canran y trosglwyddiadau ambiwlans a gwblhawyd o fewn 15 munud rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, o’i chymharu â tharged cenedlaethol o 100%. Fodd bynnag, y perfformiad yw’r uchaf namyn un yng Nghymru, o’i gymharu â sefyllfa Cymru, sef 15.8%. Ac eithrio amrywiadau tymhorol, mae’r perfformiad trosglwyddo wedi aros yn eithaf cyson ers mis Medi 2021. Fodd bynnag, mae’r perfformiad trosglwyddo yn arwain at nifer uchel o oriau a gollir oherwydd oediadau wrth drosglwyddo cleifion. Collodd y Bwrdd Iechyd 3,332 awr bob mis ar gyfartaledd rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025. Mae’r perfformiad ambiwlans yn cael ei fonitro drwy Raglen Chwe Nod y Bwrdd Iechyd.



62 Canfu adolygiad clinigol a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans[12] fod y gyfradd y mae niwed yn digwydd i gleifion yn cynyddu pan fo eu trosglwyddiadau yn cymryd dros awr i’w cwblhau. Dangosodd yr adolygiad hwn fod y tebygolrwydd y bydd claf yn profi niwed difrifol, neu barhaol, yn 7% ar gyfer trosglwyddiadau sy’n cymryd rhwng awr ac awr a hanner, 10% ar gyfer trosglwyddiadau sy’n cymryd rhwng dwy a thair awr, a 27% ar gyfer trosglwyddiadau sy’n cymryd dros bedair awr i’w cwblhau. Dangosodd data o fis Chwefror 2025 fod 52.6% (764) o drosglwyddiadau yn y Bwrdd Iechyd wedi

[12] ‘Delayed hospital handovers: Impact assessment of patient harm’ Y Gymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlans, Tachwedd 2021.

cymryd dros awr i'w cwblhau, ac y cymerodd 14.7% (223) o drosglwyddiadau dros bedair awr i'w cwblhau.

63 Mae oediadau wrth drosglwyddo cleifion yn atal gallu staff ambiwlans i ymateb i alwadau brys eraill yn y gymuned. Mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn parhau i fod yn heriol ac yn is na'r targedau perfformiad, er eu bod ychydig yn well na'r cyfartaledd yng Nghymru neu'n unol ag ef (**Arddangosyn 8**). Mae canran y galwadau coch a ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud yn sylweddol is na'r targed o 65%. Ar gyfartaledd, yr amser ymateb i alwadau oren rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 oedd 1 awr 51 munud, gan godi i 10 awr 17 munud i'r rhai a arhosodd hiraf. Mae'r perfformiad wedi gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Arddangosyn 8: amseroedd ymateb i alwadau coch ac oren (Mawrth 2024 – Chwefror 2025)**

| Dangosydd | Y Bwrdd Iechyd hwn | Tuedd | Sefyllfa Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| y ganran o alwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud | 50.1 |  | 48.6 |
| Yr amser ymateb canolrifol i alwadau oren (munudau) | 111 |  | 111 |

Ffynhonnell: Dangosyddion y Gwasanaeth Ambiwlans

## Perfformiad yr Adran Achosion Brys

64 Yn y Bwrdd Iechyd, mae'r gyfradd presenoldeb mewn Adran Achosion Brys fesul pob 100,000 o bennau yn y boblogaeth sydd wedi cofrestru â meddyg teulu wedi cynyddu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru (2,860 a 1,980 yn y drefn honno). Mae'r cyfraddau wedi cynyddu'n sylweddol ers mis Rhagfyr 2024, oherwydd pwysau y gaeaf yn ôl pob tebyg.

65 I'r gwrthwyneb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld gwelliannau mewn amseroedd aros yn yr Adran Achosion Brys yn ystod y misoedd diwethaf. Mae canran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr yn yr Adran Achosion Brys wedi gwella ychydig ym mis Chwefror 2025 i 67.4%, sef yr uchaf ers mis Tachwedd 2023. Mae nifer y cleifion sy'n treulio dros 12 awr yn yr Adran Achosion Brys hefyd wedi gwella yn ystod y misoedd diwethaf, i lawr o 1,612 ym mis Rhagfyr 2024 i 1,260 ym mis Chwefror 2025. Ar ôl ei hasesu, mae'r gyfradd dderbyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 21.5% rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, o'i chymharu â 22.3% ledled Cymru.

# Trefniadau craffu a monitro

66 Mae'r adran hon yn ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, ac yn cymhwyso gwersi a ddysgir i wella gwasanaethau ymhellach. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r hyn a ganlyn:

- trefniadau ar gyfer monitro effaith llwybrau clinigol eraill
- goruchwyliaeth a gwaith craffu effeithiol ar gyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng.

67 Canfuom fod **goruchwylio a chraffu ar berfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng a'r broses o gyflawni cynlluniau yn effeithiol, ond bod trefniadau arweinyddiaeth interim wedi effeithio ar y cyflymder a bod angen defnyddio sylwadau staff a chleifion yn well ar gyfer cynllunio.**

## Monitro effaith

68 Canfuom **er bod rhai trefniadau i fonitro'r gallu i gael gafael ar wasanaethau, fod y casgliad o sylwadau staff yn anghyson, ac nad yw'n glir sut mae sylwadau staff na chleifion yn cael eu defnyddio i lywio a chryfhau cynlluniau.**

69 Crynhoir y canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn yn **Arddangosyn 9**.

**Arddangosyn 9: dull o fonitro effaith llwybrau eraill ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| **Cwestiwn archwilio** | **Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol** | **Canfyddiadau** |
|---|---|---|
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn olrhain ac yn adrodd data i ddangos a yw cleifion yn cael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol? | **Yn rhannol** | Mae gan y Bwrdd Iechyd ddangosfwrdd sy'n olrhain carfanau penodol o gleifion, gan gynnwys cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn aml ac atgyfeiriadau drwy Consultant Connect.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn defnyddio dangosfwrdd byw i wneud penderfyniadau yn ddyddiol er mwyn cydweddu ei gapasiti â'r galw am wasanaethau gystal â phosibl Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys data megis oediadau ambiwlans, toriadau 12 awr ac aros yn yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, cododd rhai o'r staff y buom yn siarad â nhw bryderon am ddibynadwyedd gwybodaeth am y dangosfwrdd byw. **(Argymhelliad 10)**.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â byrddau iechyd eraill er mwyn deall ei ddulliau ar gyfer mesur effaith gwasanaethau drws ffrynt. |
| A yw sylwadau rheolaidd cleifion yn cael eu ceisio a'u defnyddio i lywio a gwella cynlluniau? | **Yn rhannol** | Mae arolwg cleifion misol CIVICA[13] yn o'r dulliau allweddol y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu defnyddio i gasglu sylwadau cleifion. Mae'r arolwg yn benodol i brofiadau cleifion mewn Adran Achosion Brys ac adroddir ymatebion yn ôl canran yr ymatebion cadarnhaol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn derbyn oddeutu 3,000 o ymatebion bob mis i'r arolwg hwn ac mae'r canlyniadau wedi eu cynnwys yn adroddiad perfformiad y Bwrdd Iechyd.<br><br>Dangosodd data hyd at fis Chwefror 2025 berfformiad gwell ar draws y mwyafrif o'r cwestiynau yn yr arolwg, ond yn enwedig ynghylch ansawdd y cyfathrebu rhwng staff a chleifion. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae sylwadau ansoddol, |

[13] Platfform meddalwedd a gynlluniwyd i fesur sylwadau cleifion mewn sefydliadau gofal iechyd yw CIVICA.

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | gan gynnwys awgrymiadau gan gleifion, yn cael eu ffrydio yn ôl i'r Bwrdd Iechyd. Yn ogystal â hynny, ni allem ddod o hyd i dystiolaeth i ddangos sut mae sylwadau cleifion yn cael eu defnyddio i lywio a gwella cynlluniau **(Argymhelliad 11)**. |
| A oes sylwadau rheolaidd gan staff am effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot, er mwyn nodi a chymhwyso gwersi? | **Yn rhannol** | Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cyson o gasglu sylwadau gan staff am newidiadau i wasanaethau. Clywsom rai enghreifftiau o gyfleoedd da i gynnig sylwadau. Er enghraifft, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd weithdy blaenoriaethau ym mis Mai 2024 lle ceisiwyd sylwadau gan staff mewn cysylltiad â gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br><br>Fodd bynnag, dangosodd cyfweliadau ag amrywiaeth o staff fod angen dulliau mwy rheolaidd ar gyfer sylwadau, megis rhwng gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, a gwasanaethau gofal sylfaenol, er mwyn sicrhau bod newidiadau i wasanaethau yn gweithio fel y bwriedir (**Argymhelliad 12**). |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

## Goruchwylio a chraffu

70 Canfuom fod y broses o **oruchwylio a chraffu ar gynlluniau a pherfformiad yn effeithiol, fodd bynnag, mae trefniadau arweinyddiaeth interim wedi effeithio ar gyflymder ac mae lle i werthuso prosiectau yn fwy cyson.**

71 Crynhoir y canfyddiadau sydd wedi ein harwain at y casgliad hwn yn **Arddangosyn 10**.

**Arddangosyn 10: dull o oruchwylio a chraffu ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng**

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| A yw'r perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei oruchwylio'n effeithiol ar lefel weithredol, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau a gymerir i fodloni'r galw yn well? | **Yn rhannol** | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi profi materion gydag arweinyddiaeth ar gyfer y rhaglen yn ystod 2024-25, gan gynnwys swydd wag yn swyddogaeth cyfarwyddwr y rhaglen. Yn dilyn ailstrwythuro gweithredol, mae swyddogaeth cyfarwyddwr y rhaglen wedi ei chyfuno â swyddogaeth newydd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Meddygaeth Cymunedol ac Integredig o 1 Ebrill 2025. Bu oediadau hefyd wrth benodi arweinwyr ffrwd gwaith yn ystod 2024 oherwydd pwysau gweithredol a chlinigol sydd wedi effeithio ar gynnydd cynlluniau.<br><br>Mae'r Grŵp Gwella Ansawdd, Cyllid a Chyflawni Perfformiad (IQFPD) yn ymgymryd â gwaith goruchwylio perfformiad a chynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae'r grŵp hwn yn cyfarfod bob pythefnos ac fe'i cadeirir gan y Prif Swyddog Gweithredu. Mae aelodaeth eang ar draws meysydd perthnasol y sefydliad, sy'n cynnwys gofal sylfaenol, cynllunio a chyllid. Hefyd, mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Gweithredol Integredig ar gyfer y Chwe Nod, sy'n atebol i'r tîm Gweithredol, sy'n sbarduno gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Rhaglen Chwe Nod yn y Bwrdd Iechyd.<br><br>Fodd bynnag, er bod cyfarfodydd rhwng y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar lefelau gweithredol, nid oes cynrychiolaeth Ymddiriedolaeth GIG |

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
|---|---|---|
| | | Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yng nghyfarfod IQPFD na'r Grŵp Gweithredol Integredig ar gyfer y Chwe Nod, sy'n cyfyngu ar allu y Bwrdd Iechyd i gyfuno cynlluniau strategol sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Argymhelliad 13)**. |
| A yw'r perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng yn cael ei oruchwylio'n effeithiol ar lefel pwyllgor a bwrdd, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau a gymerir i fodloni'r galw yn well? | **Ydynt** | Mae goruchwyliaeth effeithiol ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau, ac mae'r Pwyllgor Strategol, Datblygu a Chyflawni Gweithredol (SDODC) yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am raglenni gofal brys a gofal mewn argyfwng yn rheolaidd[14].<br><br>Mae adroddiadau perfformiad yn cynnwys metrigau ar drosglwyddiadau ambiwlans, amseroedd aros damweiniau ac achosion brys, ac oediadau mewn llwybr gofal. Yn ystod y flwyddyn, mae pwyllgor SDODC wedi cael archwiliadau dwfn ar raglen chwe nod, gofal sylfaenol, iechyd y boblogaeth, a'r cynllun gwasanaethau clinigol.<br><br>Yn flaenorol, roedd papur diweddaru gweithredol a gynhyrchwyd gan y Prif Swyddog Gweithredu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd, ond daeth hyn i ben ym mis Mai 2024 ac mae papurau diweddaru yn cael eu darparu ar wahân bellach os oes angen. |
| A oes trefniadau ar waith ar gyfer monitro a goruchwylio darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd | **Yn rhannol** | Mae'r Bwrdd Iechyd yn monitro buddsoddiadau mewn prosiectau yn ei Raglen Chwe Nod.<br><br>Hefyd, gall y Bwrdd Iechyd ddangos gwaith i nodi dysg sy'n deillio o newidiadau i'w wasanaeth. Er enghraifft, ym mis Ionawr 2023, cynhaliodd y |

[14] O 1 Ebrill, symudodd y cyfrifoldeb am oruchwylio strategaeth a gwaith cynllunio i Bwyllgor Strategaeth a Chynllunio newydd. Symudodd y cyfrifoldeb am oruchwylio perfformiad i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd.

| Cwestiwn archwilio | Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol | Canfyddiadau |
| --- | --- | --- |
| buddsoddiadau mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru? | | Bwrdd Iechyd adolygiad gan gymheiriaid o'i Wasanaethau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a nododd dair thema allweddol: modelu capasiti y galw, cynllunio gweithlu, a thrawsnewid digidol.<br><br>Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o waith i ddatblygu arferion gwerthusol cyson ar draws y Bwrdd Iechyd. Er enghraifft, yn ystod 2024-25, ariannodd y Bwrdd Iechyd gytundeb contractiol newydd i feddygon teulu gymryd dau glaf sydd angen gofal mewn argyfwng ychwanegol fesul diwrnod, ond nid oes unrhyw werthusiad o'r gwasanaeth hwn ac a oedd yn osgoi derbyniadau i'r ysbyty (**Argymhelliad 14**). |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Cyfyngir ein tystiolaeth i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

**Arddangosyn 11: dulliau archwilio**

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Gwnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cynllun Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (gan gynnwys yr adnoddau sydd eu hangen a'r costau)<br>• Cynllun Tymor Canolig Integredig a Chynllun Blynyddol<br>• Cynllun Rhaglen Chwe Nod ac adroddiadau cynnydd, gan gynnwys cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru<br>• Adroddiadau perfformiad ar ofal brys a gofal mewn argyfwng i'r Bwrdd a phwyllgorau<br>• Adroddiadau gwerthuso wedi eu hanelu at fentrau sy'n rheoli'n briodol y galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng<br>• Cylch gorchwyl y Bwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (neu Fwrdd y Chwe Nod), agendâu ar gyfer y llynedd a phapurau sy'n berthnasol i reoli'n briodol y galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng<br>• Canlyniadau arolygon cleifion sy'n ymwneud â'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng<br>• Diagramau sy'n nodi strwythur gofal brys a gofal mewn argyfwng |
| Cyfweliadau | Gwnaethom gynnal cyfweliadau â'r canlynol:<br>• Y Prif Swyddog Gweithredu<br>• Cyfarwyddwr y Sir, Ceredigion<br>• Arweinydd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng<br>• Cyfarwyddwr Gofal Eilaidd<br>• Rheolwr Gweithrediadau, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>• Dirprwy Gyfarwyddwr Rhanbarthol Gorllewin Cymru, Llais |

| Elfen y dull archwilio | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Trafodaethau grŵp | Gwnaethom gynnal trafodaethau grŵp gyda'r canlynol:<br>• Arweinwyr Adrannau Achosion Brys, Unedau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod, ac Unedau Mân Anafiadau<br>• Arweinwyr Clwstwr Meddygon Teulu ac Arweinwyr y Tu Allan i Oriau |
| Dadansoddi data | Gwnaethom ddadansoddi data sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, gan ddefnyddio'r ffynonellau canlynol:<br>• Dangosyddion y Gwasanaethau Ambiwlans<br>• Dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru<br>• StatsCymru<br>• Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau<br>• Ffurflenni Monitro Misol |
| Adolygiadau gwefan a phractisiau | Gwnaethom adolygu gwefan y Bwrdd Iechyd a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>Gwnaethom adolygu gwefannau practisiau a llinellau ffôn hefyd ar gyfer:<br>• sampl o 12 practis meddyg teulu<br>• sampl o 11 practis deintyddol |

Mae'r holl waith archwilio wedi ei gyflawni yn unol â safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Atodiad 2

## Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 12** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.

**Arddangosyn 12: meini prawf archwilio**

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| **A oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau cadarn ar waith i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng?** | |
| A yw cynlluniau yn ceisio gwella'r broses o reoli'r galw drwy newidiadau i'r broses o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r chwe nod ar gyfer gofal Brys a gofal mewn Argyfwng? | • Strategaethau a/neu gynlluniau sy'n ymwneud â gofal brys a gofal mewn argyfwng:<br>– yn seiliedig ar wybodaeth gyfoethog a chyfredol, wedi ei llywio gan ddata ar y galw am ofal brys a gofal mewn argyfwng (yn y gorffennol a'r dyfodol), gan gynnwys uchafbwyntiau mewn gweithgarwch ar amseroedd/diwrnodau a misoedd penodol, demograffeg, a chyflyrau cleifion<br>– yn nodi ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r galw am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng<br>– yn gydnaws â gofynion Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng er mwyn rheoli'r galw yn well<br>– yn cynnwys gwybodaeth wedi ei dogfennu am lwybrau clinigol eraill, gan gynnwys sut a phryd y dylid eu defnyddio. |
| A yw'r cynlluniau yn nodi'r lefelau cyfredol a'r lefelau gofynnol o adnoddau a staffio ar | • Mae'r strategaethau a/neu'r cynlluniau yn manylu ar yr hyn a ganlyn:<br>– y gofynion adnoddau, a'r cyllid wedi ei nodi er mwyn cefnogi unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir sy'n rhan o'r strategaeth/cynllun. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| gyfer cyflawni'r uchelgeisiau? | – y gweithlu a'r sgiliau sydd eu hangen i fodloni'r galw, gan gynnwys newidiadau mewn modelau cyflenwi megis brigau y gaeaf. Mae'r cynllun yn nodi'n glir y mathau o staff/sgiliau clinigol ac anghlinigol sydd eu hangen. |
| **A oes trefniadau ar waith i annog a galluogi pobl i gael y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf, ac a ydynt yn gweithio?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn effeithiol fel eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau yn briodol? | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth glir i'r cyhoedd am y gwasanaethau sydd ar gael a dewisiadau eraill i adrannau achosion brys drwy wahanol ffyrdd – gwefannau, trinwyr galwadau, posteri/taflenni, hysbysebion, gwefannau a llinellau ffôn meddygon teulu/deintyddion, cyfryngau cymdeithasol, fideos ac ati.<br>• Mae'r strategaethau a/neu'r cynlluniau cyfathrebu cyhoeddus yn gydnaws â gofynion nodau 2 a 3 o Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng (y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf).<br>• Mae tystiolaeth i awgrymu bod gan gleifion ddealltwriaeth dda o sut i gael gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng sy'n briodol i'w hanghenion. |
| A oes gan staff wybodaeth dda am yr amrywiaeth o wasanaethau eraill sydd ar gael i'w cleifion, pryd y maent ar gael, ac a ydynt yn gallu cael gafael arnynt? | • Mae ymgysylltiad rhwng Byrddau Iechyd a chlystyrau meddygon teulu/deintyddion/parafeddygon/fferyllwyr ynghylch llwybrau eraill sydd ar waith a dyfodol gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng. Mae gwybodaeth am y llwybrau a'r gwasanaethau hyn yn hygyrch i'r staff.<br>• Gall staff gyfeirio yn uniongyrchol/dargyfeirio cleifion i leoliadau sy'n fwy priodol i'w hanghenion, gan gynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a Chanolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
|---|---|
| A oes tystiolaeth bod newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir yn arwain at reoli'r galw yn well? | • Mae atgyfeiriadau i fodelau gwasanaeth newydd yn unol ag uchelgeisiau y chwe nod ar gyfer llawlyfr polisi gofal brys a gofal mewn argyfwng.<br>• Gall Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyfeirio o leiaf 4% o'r achosion at Ofal Argyfwng yr Un Diwrnod.<br>• Mae galwadau 111 yn cael eu hateb yn gyflym ac mae'r cyfraddau gadael yn isel.<br>• Mae'r amseroedd y mae ambiwlansys yn eu cymryd i ymateb i achosion o argyfwng, oediadau wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys ac arosiadau mewn Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau yn gwella.<br>• Mae data yn dangos gostyngiad yn niferoedd y cleifion sy'n mynd i Adrannau Achosion Brys oherwydd mân anhwylderau/anhwylderau llai acíwt.<br>• Mae'r data yn dangos ystod dda o apwyntiadau meddyg teulu sydd ar gael.<br>• Mae data'n dangos bod galwadau a ddargyfeirir rhwng 999 a 111/Galw Iechyd Cymru yn briodol, ac mai lefelau isel o alwadau sy'n cael eu dargyfeirio'n ôl a bod niferoedd y cyfraddau ailgysylltu yn isel. |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ac yn cymhwyso gwersi a ddysgir i wella'r gwasanaethau ymhellach?** | |
| A yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol eraill, gan gynnwys drwy geisio sylwadau gan staff a defnyddwyr gwasanaethau? | • Mae'r Bwrdd Iechyd yn olrhain ac yn adrodd data i ddangos a yw cleifion yn cael gafael ar wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng yn briodol.<br>• Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn ceisio sylwadau cleifion yn rheolaidd ac yn eu defnyddio i lywio a gwella cynlluniau.<br>• Ceisir sylwadau rheolaidd gan wahanol staff am effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot, er mwyn nodi a chymhwyso gwersi. |

| Cwestiynau archwilio | Meini prawf archwilio |
| --- | --- |
| A oes gwaith craffu a sicrwydd effeithiol mewn cysylltiad â chyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng a llwybrau clinigol eraill? | • Mae goruchwyliaeth effeithiol o'r perfformiad gofal brys a gofal mewn argyfwng, yn weithredol ac ar lefel pwyllgorau a'r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau a gymerir i fodloni'r galw yn well. Mae'r gwaith goruchwylio a chraffu yn cael ei lywio gan feincnodi cymharol a dysg gan gyrff eraill pan fo hynny'n briodol.<br>• Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro a goruchwylio darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd buddsoddiadau mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cadarnhau gwerth am arian a pha wahaniaeth y mae'r prosiect wedi ei wneud. |

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 13** yn nodi ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion a wnaed oherwydd yr archwiliad hwn.

**Arddangosyn 13: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Nodi data a ddefnyddir i lywio cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng**<br>A1 Er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau yn adlewyrchu ac yn gydnaws â gwybodaeth gyfredol am, er enghraifft, y galw am wasanaeth, capasiti y gwasanaeth a phwysau demograffig yn y dyfodol, dylai'r Bwrdd Iechyd nodi'n glir y data a ddefnyddir i lywio ei gynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y dyfodol **(Arddangosyn 2)**. | Mae dangosfwrdd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a fydd yn darparu cyfres o ddata i ddefnyddwyr, o wybodaeth dangosfwrdd Byw, data rhagfynegol, i lywio mesurau cynllunio ac adrodd gwasanaethau. | Gorffennaf 2025 | Gareth Beynon |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cyllido Rhaglen Chwe Nod**<br>A2 Er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni mentrau sy'n gysylltiedig â Chwe Nod yn barhaus, mae angen i'r Bwrdd Iechyd egluro a chadarnhau'r trefniadau cyllido ar gyfer cynlluniau y tu hwnt i fis Mawrth 2025. Hefyd, dylai cynlluniau ar gyfer y blynyddoedd i ddod nodi unrhyw anghenion cyllido y tu hwnt i'w dyraniad blynyddol cyfredol **(Arddangosyn 2)**. | Mae cynllun Ariannol Chwe Nod 2025/26 yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd â chydweithwyr ariannol ac arweinwyr ffrwd waith. Mae'n nodi gwariant dros y flwyddyn nesaf ar amrywiaeth o gynlluniau ac mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu cyllid cyfatebol.<br>O ran cynllunio yn y blynyddoedd i ddod y tu hwnt i'r dyraniad blynyddol, mae'r tîm wedi cwblhau gwerthusiad cynllun peilot yn ddiweddar mewn cysylltiad â chanolfannau ffrydio clinigol saith diwrnod. Bydd hyn yn sail ar gyfer arfarnu dewisiadau a fydd yn nodi'r modelau a'r gofynion cyllido a argymhellir ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a thu hwnt. | Gorffennaf 2025 | Peter Skitt |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirio cleifion at wasanaethau deintyddol brys**<br><br>A3 Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r galw uchel am ofal brys oherwydd problemau deintyddol, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod practisau deintyddol yn darparu gwybodaeth clir a hygyrch am wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng ar eu gwefannau a chynnal archwiliad yn y dyfodol i sicrhau cydymffurfiaeth **(Paragraff 28)**. | Cynhaliodd nyrs ddeintyddol adolygiad o'r galwadau brysbennu a dderbyniwyd gan 111 ar gyfer cleifion yr oedd angen mynediad brys arnynt at Wasanaethau Deintyddol y GIG, a dangosodd yr adolygiad nad oedd angen apwyntiad deintyddol brys ar 300 o'r 800 o gleifion. Heb frysbennu clinigol yn y ffynhonnell, mae hyn yn ystumio'r data ar y galw gwirioneddol am ofal deintyddol brys.<br><br>Mae'r galw am ofal deintyddol brys ar hyn o bryd yn fwy na'r lefel o wasanaeth y mae Practisau yn fodlon ei darparu. Yn ddiweddar, trafodwyd ystyriaeth i roi brysbennu gan Nyrsys Deintyddol ar waith ar ddiwedd yr wythnos a thros y penwythnos, a bydd cynllun yn cael ei ddatblygu.<br><br>Bydd fformat geiriau cytunedig yn cael ei ddatblygu a'i rannu â'r holl Bractisiau Deintyddol i'w ddefnyddio'n gyson; bydd adolygiad o hyn yn cael ei gynnwys yn rhan o'r rhaglen ymweld â Phractisiau.<br><br>Dolen i fideos 'Fy Iechyd, Fy Newis' i'w hailgylchredeg. | Awst 2025<br><br>30 Mehefin 2025<br><br>30 Mehefin 2025 | Rhian Bond |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Cyfeirio cleifion at y gwasanaethau cywir**<br>A4 Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y gofal brys a'r gofal mewn argyfwng sydd fwyaf priodol i'w hanghenion, dylai'r Bwrdd Iechyd gysylltu â Llais a grwpiau cynrychiolwyr cleifion eraill fel y bo'n briodol, er mwyn helpu i nodi lle mae angen cryfhau gwybodaeth gyfredol i gleifion a threfniadau cyfeirio (**Paragraff 32**). | Mae'r Bwrdd Iechyd mewn trafodaethau rheolaidd gyda Llais ynghylch y 6 Nod a Gofal Brys. Roedd Llais yn rhan o'r gynhadledd Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ym mis Ebrill 2025 ac mae adroddiad Llais yn helpu i nodi rhai meysydd i'w gwella. Mae ffrwd gwaith cyflym ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ar yr Amgylchedd a phrofiadau Cleifion yn cael ei chynllunio er mwyn sicrhau y cyflawnir gwell gwybodaeth a chyfeirio. | Hydref 2025 | Gareth Cottrell |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Aliniad rhwng y cyfeiriadur gwasanaethau a chanolfannau ffrydio clinigol**<br>A5 Er mwyn sicrhau aliniad rhwng y wybodaeth a gedwir gan y Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru am lwybrau a'r dulliau atgyfeirio sydd ar gael, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i nodi'n glir sut mae ei ganolfannau ffrydio clinigol a chyfeiriadur gwasanaethau Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol (**Paragraff 37**). | Diben cydleoli staff y Tîm Amlddisgyblaethol yn y canolfannau yw creu Cyfeirlyfr Gwasanaethau byw y gellir ei ddefnyddio ar unwaith. Felly, pan fo'r PTAS/Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o dan bwysau (sef 'stack attack'), anfonir ymholiadau fel arfer at Dîm Amlddisgyblaethol y Canolfan Gwasanaethau Cymunedol i ganfod pa ddewisiadau lleol eraill y gellir eu defnyddio mewn amser rhesymol. Bydd y dull hwn yn cael ei gryfhau ymhellach pan fydd y ddarpariaeth 7 diwrnod ar waith. | Tachwedd 2025 | Gareth Cottrell |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Archwiliad dwfn i'r perfformiad sy'n gysylltiedig â gwasanaethau deintyddol**<br>A6 Nododd data a adolygwyd yn rhan o'r gwaith hwn fod y galw yn y rhanbarth sy'n ymwneud â gwasanaethau deintyddol brys yn llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru, er bod y perfformiad yn wael o'i gymharu â chontractau. Er mwyn sicrhau ei fod yn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau posibl ac yn lliniaru'r pwysau hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd ymgymryd ag archwiliad dwfn i'w alw am wasanaethau gofal deintyddol brys (**Paragraff 41**). | Cynhelir adolygiad o'r galw presennol am ofal deintyddol brys yn unol â'r adroddiad. Wrth i'r galw am fynediad deintyddol brys gyrraedd ei frig yn ystod cyfnod yr haf, mae angen i'r amserlen ar gyfer adolygiad gynnwys cyfnodau o alw 'arferol' er cymhariaeth.<br>Mae nifer y contractau deintyddol sy'n rhoi'r gorai i'r GIG, gyda Phractisau yn dewis darparu gofal deintyddol preifat, ynghyd â'r ddaearyddiaeth wledig wedi bod yn her. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun comisiynu deintyddol cytunedig sydd ar y gweill i gaffael mynediad deintyddol arferol ychwanegol i'r GIG.<br>O ystyried lefel y galwadau sydd wedi eu hailgyfeirio ar frysbennu clinigol, ymddengys bod dull diwylliannol o gael gofal deintyddol 'brys' pan fo'r gofyniad yn arferol. | Rhagfyr 2025 | Rhian Bond |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Y cynnydd o'i gymharu ag adolygiad o'r diwrnod prysuraf**<br>A7 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cynyddu gymaint â phosibl y ddysg a nodir yn ei adolygiad o'r diwrnod prysuraf ym mis Tachwedd 2023, dylai roi'r wybodaeth ddiweddaraf o'i chymharu â'r argymhellion i'r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (**Paragraff 43**). | Mae'r Archwiliad Diwrnod Prysuraf wedi ei ddefnyddio wrth greu model Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng 'Glasbrint' ac mae'r argymhellion ar gyfer yr Archwiliad yn rhan o'r gwaith gwella 6 Nod parhaus.<br>Bydd y tîm 6 Nod yn diweddaru Cyllid a Pherfformiad ar gynnydd. | Hydref 2025 | Peter Skitt |
| **Monitro cydymffurfiaeth â chanllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol**<br>A8 Er mwyn cael sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau atgyfeirio Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod cenedlaethol, dylai gynnal archwiliad o'i ddata Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod o'u cymharu â'r meini prawf ac adrodd y canlyniadau wrth bwyllgor neu fforwm priodol (**Paragraff 54**). | Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno data o'u cymharu â thargedau penodol ac yn cyflwyno adroddiadau ar weithgarwch Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i'r Tîm Perfformiad ac Aswiriant (Tîm Chwe Nod Cenedlaethol) yn rheolaidd.<br>Bydd y tîm 6 Nod yn cyflwyno Gwybodaeth Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod ar ffurf y Cyflwyniad Cenedlaethol. | Medi 2025 | Thomas Alexander |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| **Mynediad at gofnodion meddygon teulu ar gyfer Canolfan Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod**<br>A9 Er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth, dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu dichonoldeb galluogi'r Canolfan Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i gael gafael ar gofnodion meddygon teulu **(Paragraff 55)**. | Mae'r mynediad at gofnodion meddygon teulu a'r sylwadau i Gofnodion Meddygon Teulu yn rhan ganolog o'r ffrwd gwaith mynediad. Bydd datblygiadau mewn atebion Digidol gan gynnwys Arsylwi Electronig a Llif Cleifion a system feddygon teulu safonol ledled ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cefnogi'r datblygiad hwn. | Tachwedd 2025 | Peter Skitt |
| **Sicrhau ansawdd data er mwyn llywio cynlluniau**<br>A10 Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu a dilysu'n rheolaidd y data cyfredol sydd ar gael am ofal brys a gofal mewn argyfwng, fel y gellir gwneud penderfyniadau â mwy o hyder ar sail y data sydd ar gael (**Arddangosyn 10**). | Mae'r Tîm 6 Nod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y gofynion Data Cenedlaethol a hefyd o'i chymharu â blaenoriaethau Gweinidogol 6 Nod. Mae tîm 6 Nod yn mynd i Bwyllgorau yn rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Perfformiad Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng a'r camau a gymerir i wella. | Mehefin 2025 | Peter Skitt |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Defnyddio sylwadau cleifion**<br>A11 Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn adeiladu ar sylwadau cleifion, dylai cynlluniau ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng yn y dyfodol ddangos sut maent wedi ystyried sylwadau cleifion **(Arddangosyn 9)**. | Mae adroddiadau rheolaidd ar brofiadau cleifion a sylwadau drwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, a straeon cleifion hefyd wedi ffurfio sail gwerthuso ar gyfer Canolfannau Ffrydio Clinigol a pheilot Enhanced Community Falls.<br>Mae rhaglen Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng wedi datblygu cysylltiadau agos â Llais. Mae'n rhan o aelodaeth Grŵp Gweithredol Integredig ar gyfer y Chwe Nod ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cwrdd ag ef yn rheolaidd ynghylch materion Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng. | Mehefin 2025 | Anna Chiffi |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Sylwadau staff am newidiadau i wasanaethau**<br><br>A12 Er mwyn nodi gwendidau neu ddysg bosibl mewn cysylltiad â newidiadau diweddar i'w wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno dulliau rheolaidd ar gyfer sylwadau staff. Dylai hyn gynnwys sylwadau gan bartneriaid allweddol gan gynnwys gofal sylfaenol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (**Arddangosyn 9**). | Mae Tîm Rhaglen Chwe Nod wedi lansio gwefan ar gyfer y staff ynghylch Rhaglen Chwe Nod, sy'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglen, gwybodaeth gyswllt, ac adnoddau. Mae hyn yn cael ei hyrwyddo ar hyn o bryd drwy'r Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: Y Rhaglen Chwe Nod. | Mehefin 2025 | Peter Skitt |
| **Goruchwylio a Chraffu**<br><br>A13 Er mwyn cryfhau ei allu i gydgysylltu cynlluniau strategol a newidiadau i wasanaethau ar gyfer ei wasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru fel aelod o'i Grŵp Gweithredol Integredig Chwe Nod **(Arddangosyn 10)**. | Bydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cael ei hychwanegu at aelodaeth y Grŵp Gweithredol Integredig ar gyfer Rhaglen Chwe Nod, a'i hychwanegu at y Rhaglen gyflym. | Gorffennaf 2025 | Gareth Cottrell |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Gwerthuso manteision prosiect**<br><br>A14 Er mwyn cryfhau ei adroddiadau am y manteision a gyflawnwyd o'i waith Rhaglen Chwe Nod a'r defnydd cysylltiedig o gyllid, dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu a chyfathrebu canllawiau i staff ar sut i werthuso effeithiolrwydd prosiectau, mentrau a newidiadau i wasanaethau sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng **(Arddangosyn 10)**. | Fforwm Cyfnewid Gwybodaeth sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd drwy'r Gyfarwyddiaeth Strategaeth a Chynllunio. Bydd hyn yn dod â staff at ei gilydd i ganfod, trafod a gwerthuso, er enghraifft Ymchwil, syniadau, tystiolaeth, ystyriaethau cyfredol, data, gwybodaeth ac enghreifftiau o arferion da. Bydd gwahanol fathau a ffynonellau gwybodaeth yn cael eu trafod yn sesiynau y Fforwm Cyfnewid Gwybodaeth, ee, Erthyglau cyfnodolion, cyfarfodydd cynadleddau, dogfennau polisi, adolygiadau tystiolaeth, astudiaethau achos neu adroddiadau mewnol. | Awst 2025 | Nathan Davies |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.